

Cynllun cymhelliant Addysg Gychwynnol Athrawon ar gyfer pynciau â blaenoriaeth 2025

Trosolwg

Mae Cynllun Cymhelliant Addysg Gychwynnol Athrawon ar gyfer Pynciau â Blaenoriaeth 2025 yn darparu cymhelliant ariannol ar gyfer myfyrwyr Addysg Gychwynnol Athrawon (AGA) sy'n cychwyn rhaglen AGA ôl-raddedig uwchradd ym mis Medi 2025, gan eu galluogi i addysgu arbenigeddau sy'n benodol i'w pwnc.

Cefndir

1. Mae gan Weinidogion Cymru bwerau i gynnig cymorth ariannol, o dan adrannau 14-17 o Ddeddf Addysg 2002 ar gyfer:
 - a. hybu recriwtio neu gadw athrawon neu staff nad ydynt yn addysgu;
 - b. darparu ar gyfer cynhaliaeth person tra bydd yn ymgymryd â chwrs o'r fath;
 - c. talu neu ddarparu buddion eraill i athrawon neu staff nad ydynt yn athrawon.
2. Gwneir y Cynllun Cymhelliant Cymhelliant Addysg Gychwynnol Athrawon ar gyfer pynciau â blaenoriaeth ("y cynllun hwn") wrth arfer y pwerau hynny.
3. Daw'r cynllun hwn i rym ar 1 Medi 2025 ac mae'n berthnasol i Gymru. Mae'r cynllun hwn yn disodli Cynllun Cymhelliant Hyfforddi Athrawon 2024 (WG23-57) ("Cynllun 2024").
 - I. Bydd darpariaethau Cynllun 2024 yn parhau'n gymwys i'r rhai y cychwynnodd eu rhaglen hyfforddi ar neu ar ôl 1 Medi 2024 ond cyn 1 Medi 2025.
 - II. Bydd darpariaethau Cynllun 2023 yn parhau'n gymwys i'r rhai y cychwynnodd eu rhaglen hyfforddi ar neu ar ôl 1 Medi 2023 ond cyn 1 Medi 2024.
 - III. Bydd darpariaethau Cynllun 2022 yn parhau'n gymwys i'r rhai y cychwynnodd eu rhaglen hyfforddi ar neu ar ôl 1 Medi 2022 ond cyn 1 Medi 2023.
 - IV. Bydd darpariaethau Cynllun 2021 yn parhau'n gymwys i'r rhai y cychwynnodd eu rhaglen hyfforddi ar neu ar ôl 1 Medi 2021 ond cyn 1 Medi 2022.
 - V. Bydd darpariaethau Cynllun 2020 yn parhau'n gymwys i'r rhai y cychwynnodd eu rhaglen hyfforddi ar neu ar ôl 1 Medi 2020 ond cyn 1 Medi 2021.
 - VI. Bydd darpariaethau Cynllun 2019 yn parhau'n gymwys i'r rhai y cychwynnodd eu rhaglen hyfforddi ar neu ar ôl 1 Medi 2019 ond cyn 1 Medi 2020.
4. Caiff Gweinidogion Cymru gyhoeddi canllawiau ar y cynllun hwn, o dan adran 10 o Ddeddf Addysg 1996, i gynorthwyo myfyrwyr, darparwyr rhaglenni cymwys. Gellir gweld y canllawiau yma: <https://www.llyw.cymru/cynllun-cymhelliant-addysg-gychwynnol-i-athrawon-ar-gyfer-pynciau-blaenoriaeth-canllawiau-i>
5. Mae'r ddogfen hon yn amlinellu'n fyr sut y bydd y cynllun hwn yn gweithredu, ac at ba ddiben y telir y grant cymhelliant.

Crynodeb o'r cynllun hwn

6. Mae'r cynllun hwn yn gwneud darpariaeth i Weinidogion Cymru dalu grantiau cymhelliant i unigolion cymwys ddilyn rhaglen gymwys sy'n arwain at ennill statws athro cymwysedig (SAC) yng Nghymru mewn pynciau penodedig.

7. Bydd talu'r grant cymhelliant yn cael ei rannu'n dri rhandaliad: gellir talu'r rhandaliad cyntaf yn ystod rhaglen gymwys (rhandaliad yn ystod y rhaglen), yr ail ar ôl i'r unigolyn cymwys lwyddo i ennill statws athro cymwysedig (rhandaliad SAC), a'r trydydd pan fydd yr unigolyn wedi cwblhau cyfnod ymsefydlu'n foddhaol (rhandaliad terfynol). Mae penderfyniad Gweinidogion Cymru ynghylch a fydd unrhyw daliad o dan y cynllun hwn yn cael ei wneud i unrhyw unigolyn cymwys yn derfynol.

Dehongli

8. Onid yw'r cyd-destun yn mynnu fel arall, at ddibenion y cynllun hwn:

ystyr "rhaglen gymwys" ("*eligible programme*") yw rhaglen sydd:

yn rhaglen addysg gychwynnol athrawon ôl-raddedig uwchradd amser llawn neu ran-amser sy'n arwain at statws athro cymwysedig sy'n cael ei achredu gan Fwrdd Achredu Addysg Athrawon Cyngor y Gweithlu Addysg¹, a sefydlwyd yn unol â rheoliad 5 Rheoliadau Cyngor y Gweithlu Addysg (Achredu Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon) (Cymru) 2017;

ystyr "myfyriwr cymwys" ("*eligible student*") yw unigolyn â hawl ganddo i gael cymorth o dan reoliadau a wnaed o dan adran 22 o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998 ac sydd mewn grym ar y pryd, fel y mae'r rheoliadau hynny yn gymwys i'r cwrs hwnnw²;

ystyr "cyflogedig" ("*employed*") yw o dan gontract cyflogaeth neu i ddarparu gwasanaethau mewn ffordd arall heblaw o dan gontract cyflogaeth a dylid dehongli "cyflogaeth" ("*employment*") yn unol â hynny;

ystyr "cynllun hyfforddi athrawon ar sail cyflogaeth" ("*employment-based teacher training scheme*") yw cynllun a wneir o dan reoliad 8 o Reoliadau Cymwysterau Athrawon Ysgol (Cymru) 2012, gan gynnwys unrhyw gynllun diwygiedig neu gynllun newydd a gyflwynwyd;

ystyr "rhaglen AGA ôl-raddedig" ("*postgraduate ITE programme*") yw rhaglen addysg gychwynnol athrawon ôl-raddedig achrededig amser llawn, rhan-amser neu hyblyg, a ddarperir gan ddarparwr AGA yng Nghymru. Yn y cyd-destun hwn mae "hyblyg" yn dynodi bod hyd a phatrwm y rhaglen wedi eu penderfynu yn ôl profiad ac anghenion hyfforddiant y myfyriwr;

mae i "athro cymwysedig neu athrawes gymwysedig" ("*qualified teacher*") yr ystyr a roddir i "*qualified teacher*" gan adran 132(1) o Ddeddf Addysg 2002: sef "a person who satisfies requirements specified in regulations"² a wnaed o dan yr adran honno.

¹ Sefydlir Bwrdd Achredu Addysg Athrawon CGA yn unol â rheoliad 5 o Reoliadau Cyngor y Gweithlu Addysg (Achredu Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon) (Cymru) 2017 ac fe gyfeirir ato o fewn y rheoliadau hynny fel Pwyllgor Achredu Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon.

² Y Rheoliadau sydd yn berthnasol i'r ddarpariaeth o gymorth i fyfyrwyr mewn perthynas â'r flwyddyn academaidd sy'n ymestyn o 1 Medi 2024 i 31 Awst 2025 yw Rheoliadau

Addysg (Cymorth i Fyfyryr) (Cymru) 2018 (O.S. 2018 Rhif 191 (Cy. 42)). Bydd y Rheoliadau hyn mewn grym am y flwyddyn academaidd 2025/26.

² Y Rheoliadau sydd mewn grym ar hyn o bryd yw Rheoliadau Cymwysterau Athrawon Ysgol (Cymru) 2012 (OS 2012/724 (Cy. 2012/724 (Cy. 96))).

Grantiau cymhelliant

9. Caiff Gweinidogion Cymru, yn ôl eu disgrisiwn, dalu grantiau ("grantiau cymhelliant") ar ffurf cymhellion i unigolion sy'n bodloni gofynion paragraffau 11, 12, 13, 14 a 15, yn amodol ar baragraff 10.
10. Mae'r grantiau cymhelliant a roddir o dan y cynllun hwn yn ddarostyngedig i'r amodau a bennir ym mharagraffau 17 i 23.

Pwy sy'n gymwys i gael grantiau cymhelliant

11. Er mwyn bod yn gymwys i gael grant cymhelliant, rhaid i'r unigolyn: -
 - a. fod yn astudio, yn gyfan gwbl neu'n bennaf, un neu ragor o'r pynciau â blaenoriaeth canlynol fel rhan o raglen gymwys: Bioleg, Cemeg, Dylunio a Thechnoleg, Technoleg Gwybodaeth, Mathemateg, Ieithoedd Tramor Modern (ITM), Ffiseg a/neu Gymraeg; a
 - b. pan dderbynnir yr unigolion i'r rhaglen gymwys, bod yn ddeiliad gradd gyntaf neu gymhwyster cyfwerth a ddyfarnwyd gan sefydliad yn y Deyrnas Unedig neu radd gyfwerth neu gymhwyster arall cyfwerth a ddyfarnwyd gan sefydliad tramor, o ddsbarth cyntaf, 2.1 neu 2.2, neu PhD neu radd Meistr neu gyfwerth. Nid yw'n ofynnol bod y radd gyntaf neu'r cymhwyster cyfwerth yn yr un pwnc â'r pwnc sy'n cael ei astudio ar y rhaglen AGA ôl-raddedig.
12. I fod yn gymwys ar gyfer pob rhandaliad o'r grant cymhelliant, rhaid i unigolyn fodloni'r meini prawf unigol ar gyfer pob cyfnod talu fel y nodir isod.
13. Er mwyn bod yn gymwys i gael grant hyfforddi, rhaid i'r unigolyn:-
 - a. fodloni'r gofynion o dan baragraff 10; a
 - b. dilyn rhaglen gymwys yng Nghymru sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Medi 2025 ond cyn 31 Awst 2026; a
 - c. bod yn fyfyrwr cymwys; a
 - d. peidio â bod wedi cymhwyso fel athro neu athrawes eisoes; a
 - e. peidio â bod wedi ei gyflogi i addysgu mewn ysgol neu sefydliad arall fel athro neu athrawes pan fydd yn dechrau ar ei raglen gymwys yn unol â 10a uchod; a
 - f. peidio â bod yn cymryd rhan mewn hyfforddiant a drefnwyd o dan unrhyw gynllun hyfforddi athrawon ar sail cyflogaeth; a
 - g. peidio â bod yn dilyn cwrs addysg bellach o unrhyw fath.
14. I fod yn gymwys i gael rhandaliad SAC o grant cymhelliant, ar ôl cwblhau rhaglen gymwys ac ar ôl dyfarnu SAC, rhaid i fyfyrwr:
 - a. fodloni'r gofynion cymhwystra ar gyfer y grant cymhelliant hwn a bod wedi cael y taliadau cymhelliant yn ystod eu rhaglen gymwys, yn unol â pharagraffau 11, 12, 13; a
 - b. bod wedi cwblhau rhaglen gymwys yn llwyddiannus ac ennill Statws Athro Cymwysedig yn unol â Rheoliadau Cymwysterau Athrawon Ysgol (Cymru) 2012.
15. Er mwyn bod yn gymwys i gael rhandaliad terfynol o grant cymhelliant, ar ôl cwblhau cyfnod ymsefydlu, rhaid i athrawon newydd gymhwyso:
 - a. fod wedi bodloni'r gofynion cymhwystra ar gyfer y grant cymhelliant a bod wedi cael y rhandaliad yn ystod eu rhaglen gymwys a'r rhandaliad SAC ar ôl dyfarnu SAC, yn unol â pharagraffau 11, 12, 13 ac 14; a

- b. bod wedi cwblhau cyfnod ymsefydlu'n llwyddiannus
 - i. mewn unrhyw leoliad uwchradd a gynhelir yng Nghymru, ac
 - ii. o fewn tair blynedd ar ôl ennill Statws Athro Cymwysedig, ac fel arall yn unol â Rheoliadau Addysg (Trefniadau Ymsefydlu ar gyfer Athrawon Ysgol (Cymru) 2015.

16. Mae gan fyfyrwyr cymwys ar gyfer y cynllun cymhelliant hwn hawl hefyd i hawlio cymhellion hyfforddi eraill i athrawon ar yr amod eu bod yn bodloni meini prawf cymhwysa'r cynlluniau hynny yn ystod y flwyddyn academaidd o astudio.

Amodau

17. Ni thelir grant cymhelliant i unigolyn oni fydd wedi gwneud cais i Weinidogion Cymru ym mha bynnag ffurf, ar ba bynnag adeg a chan gynnwys pa bynnag fanylion y caiff Gweinidogion Cymru eu penderfynu o bryd i'w gilydd.
18. Caiff Gweinidogion Cymru, yn ôl eu disgrisiwn, benderfynu peidio â thalu grant cymhelliant i unigolion a gafodd eu derbyn ar raglen AGA ôl-raddedig wedi i'r rhaglen honno gyrraedd nifer y dyraniad derbyn ar ei chyfer (fel y penderfynwyd gan Gyngor y Gweithlu Addysg).
19. Ni fydd unigolyn sy'n gymwys i gael grant cymhelliant ac sy'n ymuno â rhaglen gymwys, ond sy'n gadael ei raglen cyn ei chwblhau, neu sy'n methu â chael SAC neu gwblhau cyfnod ymsefydlu cyflawn yn foddhaol, fel y bo'n berthnasol, yn gymwys i gael unrhyw randaliadau grant cymhelliant pellach sy'n ychwanegol at y rhai a dalwyd eisoes i'r unigolyn, yn unol ag unrhyw ganllawiau a rhaglen daliadau a lunnir gan Weinidogion Cymru o bryd i'w gilydd.
20. Bydd grantiau cymhelliant (boed yn rhandaliadau yn ystod y rhaglen, rhandaliadau SAC neu randaliadau terfynol) a all fod yn ddyledus i unigolion cymwys a ddechreuodd raglen gymwys mewn un flwyddyn academaidd ond yna, yn dilyn gohirio, yn aildechrau'r rhaglen yn y flwyddyn academaidd nesaf, yn parhau i gael eu talu ar y gyfradd grant cymhelliant berthnasol (os oes un) o dan y cynllun a oedd yn gymwys yn y flwyddyn academaidd y dechreuodd eu hastudiaethau i ddechrau oni fydd Gweinidogion Cymru yn penderfynu'n wahanol yn ôl eu disgrisiwn, yn ysgrifenedig.
21. Pan fo unigolyn sy'n gymwys o dan y cynllun hwn, cyn 1 Medi 2025, wedi derbyn, naill ai'n llawn neu'n rhannol, unrhyw daliad grant cymhelliant sy'n gysylltiedig â rhaglen AGA arbenigedd pwnc uwchradd o dan unrhyw gynlluniau neu drefniadau eraill mewn cysylltiad ag ymgymryd ag addysg gychwynnol athrawon, bydd y taliadau grant cymhelliant sy'n ddyledus iddynt o dan y cynllun hwn yn cael eu lleihau gan swm sy'n cyfateb i'r taliadau grant cymhelliant a dderbyniwyd ganddynt yn flaenorol o dan y cynlluniau neu'r trefniadau eraill hynny. Mae hyn hefyd yn berthnasol i grantiau cymhelliant a dderbynnir gan unigolion cymwys cyn 1 Medi 2025 o dan unrhyw drefniadau sy'n berthnasol yn Lloegr y bodlonwyd Gweinidogion Cymru eu bod yn cyfateb i'r rhai a wnaed mewn perthynas â grantiau cymhelliant yn unol â'r cynllun hwn.
22. Gellir cadw taliadau yn ôl sy'n ddyledus i fyfyrwyr sy'n tynnu'n ôl o raglen AGA, na chyflawnodd SAC neu a fethodd â dechrau neu gwblhau cyfnod ymsefydlu, yn unol ag unrhyw ganllawiau a raglen daliadau a gynhyrchir gan Weinidogion Cymru o bryd i'w gilydd.

23. Caiff Gweinidogion Cymru fynnu bod rhan neu'r cyfan o unrhyw grant cymhelliant a dalwyd yn cael ei ad-dalu:-
- os yw'r derbynnnydd, ar ôl cael unrhyw randaliad o grant cymhelliant, yn methu â bodloni unrhyw feini prawf cymhwysra a fabwysiedir gan Lywodraeth Cymru, a nodir yn y cynllun hwn, mewn perthynas â rhandaliad dilynol;
 - os yw'r derbynnnydd, yn ei gais am grant neu mewn cysylltiad â'r cais hwnnw, wedi darparu gwybodaeth ffug neu wybodaeth sy'n gamarweiniol mewn ffordd berthnasol;
 - os bydd tystiolaeth nad oedd derbynnnydd y grant erioed yn bwriadu cwblhau'r rhaglen AGA ôl-raddedig neu, ar ôl ei chwblhau, fynd i addysgu.


Talu'r grantiau cymhelliant

24. Gellir talu grantiau naill ai mewn pa bynnag nifer o randaliadau, ac ar ba bynnag adegau, a benderfynir gan Weinidogion Cymru.
25. Caiff Gweinidogion Cymru ddarparu cyllid i sefydliad sy'n darparu rhaglen gymwys ar gyfer talu unigolyn cymwys sydd ar raglen gymwys, ar ba bynnag adegau a gyfarwyddir gan Weinidogion Cymru.
26. Bydd Gweinidogion Cymru yn darparu arian, ar yr adegau hynny y caiff Gweinidogion Cymru benderfynu arnynt, i'w talu i unigolyn cymwys, ar yr adegau hynny ar ôl i'r unigolyn cymwys gwblhau cyfnod ymsefydlu'n llwyddiannus.

Gweinyddu

27. Caiff Gweinidogion Cymru wneud taliad i sefydliadau sy'n darparu rhaglenni cymwys sy'n dosbarthu'r grant cymhelliant i gydnabod y costau gweinyddol a chostau cysylltiedig eraill sy'n gysylltiedig â gwneud y taliadau hynny. Bydd angen i'r sefydliadau, fel rhan o unrhyw gyfryw daliad, dalu sylw i ganllawiau a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru (y cyfeirir atynt ym mharagraff 4).

Llofnodwyd ar ran Gweinidogion Cymru



Lynne Neagle AS
Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg

Dyddiedig: 11/11/2024